# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## Cofnodion (CWLS (2) 09-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 15 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: 9:30am – 12:30pm
### Lleoliad y Cyfarfod: Y Pafiliwn Cydwladol Brenhinol, Llangollen

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Rosemary Butler (Cadeirydd) | Gorllewin Casnewydd |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Laura Anne Jones | Dwyrain De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Alun Pugh (Gweinidog) | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Gwilym Evans | Cyfarwyddwr Dros Dro y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Huw Pritchard | Clwb Pêl-droed Dinas Bangor | 3 |
| Mike Harris, Cyfarwyddwr | Clwb Pêl-droed TNS | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| Brian Lawlor, Dyfarnwr | Swyddog Dyfarnu Gogledd-orllewin Cymru | 3 |
| Malcolm Jackson, Cyfarwyddwr Masnachol | Clwb Pêl-droed y Rhyl | 3 |
| Richard Lillicrap | Supporters Direct | 3 |
| Bob Paton, Cadeirydd | Clwb Pêl-droed Bae Colwyn | 3 |
| Grant Mcindoe, Ysgrifennydd y Cwmni | Clwb Pêl-droed Bae Colwyn | 3 |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Julia Annand | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Joel Steed | Swyddog Cymorth y Pwyllgor |

### Is-adran y Gyfraith

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| O Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

### Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Neil Cox | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau buddiant.

### Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Papur: CWLS2 08-06 (min)

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cryno'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2006.

## Eitem 3: Adolygiad o Bêl-droed yng Nghymru: Sesiwn Dystiolaeth

Papurau: CWLS2 09-06 (p1, p2, p3, p4 a p5)

3.1 Cafwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr Clwb Pêl-droed Dinas Bangor, Clwb Pêl-droed TNS, Clwb Pêl-droed y Rhyl, Clwb Pêl-droed Bae Colwyn, Supporters Direct a Dyfarnwyr Gogledd-orllewin Cymru.

### Camau i'w cymryd

- Bydd y Clybiau yn darparu manylion am y ffordd y maent yn cefnogi datblygiad chwaraewyr ifanc ar lawr gwlad.
- Bydd y Clybiau yn darparu siart sy'n dangos eu lle yn strwythur pêl-droed Cymru.
- Bydd Richard Lillicrap, Supporters Direct, yn darparu enghraifft o'r ffordd y mae ei sefydliad wedi helpu pobl ifanc sydd wedi dadrithio.
- Bydd y Clybiau yn darparu rhestr o'r rhannau hynny o'r strwythur presennol sy'n gweithio yng Nghymru.

## Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog

Papur: CWLS(2) 09-06 (p6)

4.1 Rhoddodd y Gweinidog adroddiad ar faterion yn ei bortffolio.

### Camau i'w cymryd

Bydd Gwasanaeth y Pwyllgorau yn cynnwys yr eitemau a ganlyn yn y Flaenraglen Waith:

- Eitem ar gyllid ychwanegol ar gyfer Theatr Cyfrwng Saesneg.
- Eitem ar Adolygiad Stephens o'r Celfyddydau yn Nhymor yr Hydref.
- Papur y Gweinidog ar Bolisi Chwaraeon a ohiriwyd tan Dymor yr Hydref.
- Caiff eitem ar yr ymgynghoriad ynghylch arddangos celf ei rhoi ar agenda cyfarfod 28 Mehefin.
- Caiff eitem ar Gêmau'r Gymanwlad ei rhoi ar agenda cyfarfod 13 Gorffennaf.

Bydd y Gweinidog yn:

- Ymchwilio i weld a fyddai modd cynhyrchu Cofnodion y Bwrdd Diwylliant yn gynt nag a wneir ar hyn o bryd.
- Darparu copi o nifer y pyllau nofio sy'n cymryd rhan yn y Fenter Nofio am Ddim a'u henwau.
- Rhoi manylion y sefyllfa bresennol o ran darparu mynediad at henebion Cadw i bobl anabl.
- Rhoi manylion y ffigurau gwerthu ar gyfer cyhoeddiadau Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru (ac

- eithrio Llyfrgell Genedlaethol Cymru).
- Rhoi manylion am ffyrdd o helpu dawnswyr dawnus annibynnol drwy'r system grant sydd eisoes yn ei lle.

### Eitem 5: Adolygiad o Bapurau Newydd yng Nghymru

Papur: CWLS(2) 09-06 (p7)

5.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor gytuno ar eiriad yr adroddiad i'w drafod yn y cyfarfod llawn ar 28 Mehefin. Bydd angen ei osod ar 20 Mehefin.

Cytunodd yr Aelodau ar eiriad yr adroddiad ac eithrio'r mân newidiadau a ganlyn i'r testun Saesneg:

- 2.6 : paragraff 3 – dileu'r coma rhwng 'South' ac 'East'
- 2.6: paragraff 4 – ar ôl "we also noted that" mewnosod "it was claimed that"
- 2.6 paragraff 5 – ar ôl "we heard" dileu "accepted" a mewnosod "noted"
- 2.7: paragraff 3 – ar ôl "a wider range of" dileu "Welsh newspapers" a mewnosod "newspapers in Wales"

### Atodiad A

- Dylid cynnwys Mr/Ms yn ôl y gofyn.

### Eitem 6: Ymateb y Pwyllgor i'r "Ymgynghoriad ar uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â'r Llywodraeth"

Papur: CWLS(2) 09-06 (p8)

6.1 Trafodwyd y mater mewn cryn fanylder, a chan nad oedd consensws ymhlith yr Aelodau, penderfynwyd peidio ag anfon ymateb. Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn gyfle sydd wedi’i golli o ran rhoi sylwadau.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Mehefin 2006**